



**Cyfeirnod:** 250A2017-18

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2017

## Archwiliad o Gynllun Gwella 2017-18 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

### Tystysgrif

Rwyf yn ardystio fy mod i wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor), ar ôl ei gyhoeddi ar 9 Hydref 2017, yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 15(6) i (9) y Mesur a'i fod wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

### Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau o ran y canlynol:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn bodloni unrhyw safon o ran perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac yn gyfrifol am y wybodaeth a geir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a eglurir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw'r wybodaeth, nac ynghylch a oes modd cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau a bennir mewn deddfwriaeth. Euthum ati hefyd i asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Nid yw'r gwaith yr wyf i wedi'i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y gellir dibynnu'n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella.



**Huw Vaughan Thomas**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi at: Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Colin Davies, Rheolwr

Justine Morgan, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad